



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

31/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/04/2020

Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid (TN)

Teitl: Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19
Theori Newid (TN)

Awdur(on): Stuart Harries, Nia Bryer & Eluned Glyn



Adroddiad ymchwil llawn: Arad Research; OB3 Research (2020). Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid(TN), Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 31/2020.>
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-mwy-na-geiriau-theori-newid>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad / Cefndir	4
2. Methodoleg	13
3. Canfyddiadau cyfweiliadau gyda'r rhanddeiliaid	17
4. Mapio barn rhanddeiliaid i amcanion <i>Mwy na Geiriau</i>	27
5. Camau Nesaf	44
Atodiad A	47

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Cwmwl geiriau – termau a ddefnyddiwyd yn amlaf i ddisgrifio cyflawni nodau <i>Mwy na geiriau</i>	19
Ffigur 4.1: Theori Newid ar gyfer Amcan 1: Arweinyddiaeth genedlaethol a lleol, a pholisi cenedlaethol.....	30
Ffigur 4.2: Theori Newid ar gyfer Amcan 2: Mapio, archwilio, casglu data.....	32
Ffigur 4.3: Theori Newid ar gyfer Amcan 2: Ymchwil	33
Ffigur 4.4: Theori Newid ar gyfer Amcan 3: Cynllunio gwasanaethau, comisiynu, contractio a chynllunio'r gweithlu	35
Ffigur 4.5: Theori Newid ar gyfer Amcan 4: Hyrwyddo ac ymgysylltu	37
Ffigur 4.6: Theori Newid ar gyfer Amcan 5: Addysg Broffesiynol	39
Ffigur 4.7: Theori newid ar gyfer Amcan 6: Cymraeg yn y Gweithle	41
Figure 4.8: Theori Newid ar gyfer Amcan 7: Rheoleiddio ac arolygu	43

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
-------------------------------	------------------

Cynnig Gweithredol	Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb fod rhaid i rhywun ofyn amdano
CSE	Cofnodion Staff Electronig
SAB	Sefydliad Addysg Bellach
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
TG	Technoleg Gwybodaeth
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Safonau	Safonau'r Iaith Gymraeg
TN	Theori Newid

1. Cyflwyniad / Cefndir

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad a OBR Research i wneud gwerthusiad o *Mwy na geiriau*, fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau'r iaith Gymraeg i iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a gofal cymdeithasol yng Nghymru, 2016-19. Nod y gwerthusiad yw asesu sut, ac i ba raddau, mae *Mwy na geiriau* wedi cyrraedd ei nod arfaethedig i hyrwyddo a chefnogi defnydd yr iaith Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 1.2 Ymglymerir y gwerthusiad mewn tri phrif gyfnod. Y cyntaf yw datblygu Theori Newid (TN) sy'n adnabod a manylu set o ganlyniadau cysylltiedig neu lwybrau newid a ddylai deillio o gefnogi cyflawniad gweithredoedd cychwynnol i gyrraedd y canlyniadau arfaethedig. Adnabod y llwybrau cysylltiedig hyn fydd yn ffurfio sylfaen ail gyfnod y gwerthusiad – datblygu fframwaith gwerthuso. Bydd y fframwaith gwerthuso yn amlinellu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn dangos i ba radd y mae'r gweithredoedd sy'n arwain at y canlyniadau ac allbynnau arfaethedig, a nodwyd yn y TN, wedi eu cyflawni. Bydd y fframwaith gwerthuso yn ei dro yn arwain y cwestiynau a'r broses o gasglu gwybodaeth sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu'r dystiolaeth werthuso ofynnol – sef trydydd cyfnod y gwerthusiad.
- 1.3 Mae'r broses dri-chyfnod yn sicrhau bod y canfyddiadau a geid yn perthyn yn benodol i'r allbynnau a chanlyniadau sy'n cefnogi'r newidiadau ac effeithiau a amlinellwyd o fewn fframwaith *Mwy na geiriau*.
- 1.4 Ffocws yr adroddiad hwn yw datblygiad y cyntaf o'r tri chyfnod hyn – y Theori Newid (TN). Seilir y TN isod yn bennaf ar farnai a phrofiadau rhanddeiliaid a fu'n gysylltiedig â datblygiad fframwaith strategol *Mwy na geiriau* yn ogystal â'r rheini sy'n ymwneud â darparu polisïau ac ymarferion o ddydd i ddydd sy'n gysylltiedig ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 1.5 Mae'r adroddiad yn dechrau gyda chyflwyniad byr i egwyddorion TN yn ogystal â'r cyd-destun strategol, deddfwriaethol ac ymchwil y gosodwyd *Mwy na geiriau* a'r TN gysylltiedig ynddo. Yna mae'r adroddiad yn amlinellu'r dull ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwn o'r broses werthuso, a chrynodeb o'r canfyddiadau gwaith maes a ddeilliodd ohono. Yna, fe ystyrir y canfyddiadau o fewn cyd-destun amcanion strategol *Mwy na geiriau* – sylfaen y TN.

Cyflwyniad i Theori Newid

- 1.6 Mae Theori Newid yn arf i esbonio sut y bwriedid rhaglen i gyrraedd ei nodau ac amcanion drwy egluro'r cysylltiadau tybiedig rhwng gweithredoedd, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor-hwy y rhaglen. Mae'r TN hefyd yn ceisio disgrifio a chyfathrebu'r set o dybiaethau y seiliwyd yr effaith tymor-hir arnynt.
- 1.7 Mae TN yn arf defnyddiol ar gyfer cynllunio, arolygu a gwerthuso ymyrraeth gymhleth oherwydd iddo ddangos sut y gallai newidiadau ddigwydd, gan egluro'r newidiadau tymor byr a thymor canol y mae rhaid iddynt ddigwydd er mwyn sicrhau y gellir cyrraedd yr allbwn tymor hir.
- Fodd bynnag, yng nghyd-destun y gwerthusiad hwn, nid amlinellu meysydd ar gyfer ystyriaeth yn y dyfodol yw nod y TN, yn hytrach, ei bwriad yw amlinellu'r hyn a ddylai fod mewn lle er mwyn cyflawni amcanion fframwaith *Mwy na geiriau*. Defnyddir hwn fel y waelodlin y mesurir y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 2016 a 2019 yn ei herbyn.

Cyd-destun strategol, deddfwriaethol ac ymchwil

- 1.8 Yn Ionawr 2011 sefydlodd Uned Polisi'r Iaith Gymraeg i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (o fewn Llywodraeth Cymru) Grŵp Llywio annibynnol, gan gynnwys defnyddiwr gwasanaethau, unigolion o ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, rhanddeiliaid, rheoleiddwyr, ac academia i ddatblygu'r fframwaith gwreiddiol *Mwy na geiriau* – fframwaith strategol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg i ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.¹
- 1.9 Darparai'r fframwaith strategol gwreiddiol hwn gyfarwyddyd strategol o 2012 tan 2015 gan amlinellu chwe amcan y byddai'n ofynnol i bob cyfundrefn weithio tuag atynt:
- gweithredu ymagwedd gyfundrefnol tuag at wasanaethau yn yr iaith Gymraeg fel elfen annatod o ran cynllunio a darparu gwasanaethau;
 - adeiladu ar arferion a chynllunio cyfredol gorau, comisiynu a darparu gofal wedi ei seilio ar wasanaeth "Cynnig Gweithredol";

¹ Llywodraeth Cymru (2012), *Mwy na geiriau* – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

- cynyddu gallu'r gweithle i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd/ardaloedd sydd â blaenoriaeth, ac ymwybyddiaeth o'r iaith ym mhllith yr holl staff;
- creu arweinwyr a fydd yn magu ethos cefnogol o fewn gweithdrefnau fel y gall defnyddwyr Cymraeg eu hiaith dderbyn gwasanaethau sy'n sensitif i'w hiaith fel rhan naturiol o'u gofal;
- darparu rhaglenni addysgu, dysgu a datblygu sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb y gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; a
- sicrhau bod yr holl strategaethau, polisiau, a rhaglenni arweinyddiaeth yn prif-ffrydio gwasanaethau trwy'r iaith Gymraeg.

1.10 Hefyd cefnogwyd y fframwaith gwreiddiol gan Gynlluniau Gweithredu tair blynedd – un ar gyfer y GIG ac un ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd llawer o agweddau'r cynlluniau gweithredu yn gyflenwol, ac argymhellwyd y dylid gweithredu rhai o'r camau ar y cyd rhwng y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, bwriadai'r fframwaith strategol dilynol² a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 sicrhau ymagwedd fwy integredig, ac felly roedd e'n cynnwys un cynllun gweithredu ar gyfer y ddau sector yn seiliedig ar saith maes allweddol;

- arweinyddiaeth genedlaethol a lleol, a pholisi cenedlaethol;
- manylu, archwilio, casglu data ac ymchwilio;
- cynllunio'r gwasanaeth, comisiynu, rhoi gwaith ar gynnig, a chynllunio'r gweithlu;
- hyrwyddo ac ymrwymo;
- addysg broffesiynol;
- Cymraeg yn y gweithle, a
- rheoleiddio ac arolygu.

1.11 Bwriadai'r strategaeth ddilynol gynyddu a pharhau'r momentwm a grewyd gan y fframwaith strategol cyntaf. Felly, roedd y weledigaeth drosfwaol yn dal i fod yn debyg i weledigaeth y fframwaith cyntaf – h.y. darparu gwasanaethau trwy'r iaith Gymraeg ar hyd y broses ofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac anghenion eu teuluoedd/gofalwyr.

² Llywodraeth Cymru (2016), Mwy na geiriau – Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

- 1.12 Ffocws y fframwaith dilynol oedd annog darparwyr i gyflenwi gwasanaethau gofal sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn, yn hytrach na dim ond dilyn gweithdrefnau. Bwriadai gefnogi lefel uwch o adnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r iaith Gymraeg, ond hefyd yn fater o angen. Hefyd, roedd gan y fframwaith dilynol ffocws mwy ar allbynnau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau y gall unigolion a theuluoedd ddeall yr hyn y bydd cyflenwi'r fframwaith yn ei olygu iddyn nhw.
- 1.13 Elfen graidd y ddau iteriad o'r fframwaith yw'r Cynnig Gweithredol. Yn syml iawn, ystyr Cynnig Gweithredol yw darparu gwasanaeth drwy'r Gymraeg heb fod rhaid i rywun ofyn amdano. Mae hyn yn golygu creu newid diwylliannol sy'n symud y cyfrifoldeb oddi wrth yr unigolyn a'i roi e ar ddarparwyr gwasanaeth, gan osgoi'r rhagdybiaeth fod siaradwyr Cymraeg i gyd yn medru siarad Saesneg beth bynnag. *Cyd-destun Strategol*
- 1.14 Dylid ystyried y fframwaith dilynol o fewn cyd-destun datblygiadau ehangach ym mholisi'r iaith Gymraeg gan gynnwys strategaeth Llywodraeth Cymru, [Ffyniant i Bawb](#), sydd yn olrhain pwysigrwydd yr iaith Gymraeg o ran datblygu Cymru sy'n iach, heini, unedig a chysylltiedig. Ers cyhoeddiad gwreiddiol *Mwy na geiriau*, mae'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi dod yn gyfraith, gan ddarparu [Safonau'r Gymraeg](#) newydd ar draws fywyd cyhoeddus Cymreig.
- 1.15 Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg i ofal cymdeithasol ac yn fwy diweddar i'r sector iechyd yn gweithio law yn llaw gyda gweithredu *Mwy na geiriau*. Gwelwyd y gweithredoedd yn y fframwaith strategol dilynol fel modd i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys cynyddu gallu cyrff cyhoeddus i gwrdd â gofynion y Safonau.
- 1.16 Mae strategaeth yr iaith Gymraeg **Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg** yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth wneud hyn, gesyd bwyslais ar y rôl a fydd gan *Mwy na geiriau* i gyflawni nodau'r strategaeth, gan esbonio:

“Mae egwyddor ‘Cynnig Gweithredol’ yn arbennig o berthnasol wrth ystyried gwasanaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, cyflenwir y GIG, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol gan bron 200,00 o staff, ac yn y GIG yn unig, mae cleifion yn rhyngweithio gyda'r gwasanaeth 20 miliwn o weithiau mewn blwyddyn. Nid oes modd tanamcangyfrif yr her sydd yng nghlwm wrth hyn. Fodd bynnag, oherwydd nifer y staff a'r lefel uchel o

ryngweithio, mae gan y sector hwn y potensial i wneud cyfraniad gwerthfawr i'n nod".³

- 1.17 Gesyd Llywodraeth Cymru ei chyfeiriad strategol cenedlaethol i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd drwy nifer o ddogfennau, gan gynnwys Rhaglen i Lywodraeth (Symud Cymru Ymlaen) a chynlluniau cyflenwi iechyd. Gesyd y Rhaglen i Lywodraeth ymrwymiad i sefydlu **Adolygiad Seneddol i Iechyd a Gofal cymdeithasol**. Bu'r Adolygiad Seneddol wrthi'n casglu gwybodaeth oddi wrth rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau yng Nghymru fod, a chyhoeddodd ei adroddiad yn 2018⁴. Yn yr adroddiad, mae'r awduron yn cyfeirio at y "nod pedryblaidd" a fabwysiadwyd fel set o egwyddorion ar gyfer diwygio'r system iechyd o fewn llawer o weithdrefnau o gwmpas y byd. Mae dau o'r pedwar nod - "gwella'r profiad ac ansawdd gofal i unigolion a theuluoedd" a "cyfoethogi'r lles, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol" – yn berthnasol iawn o fewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol a pholisi'r iaith Gymraeg.
- 1.18 Ymateb Llywodraeth Cymru yw **Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae'r cynllun tymor hir hwn yn cyfeirio argymhellion yr adolygiad a chadarnhau'r gweithredoedd y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud, a'r gweithredoedd y gofynnir i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu gwneud. Mae yna ddeg 'egwyddor ddylunio' i ddarlunio sut y gall y nod pedryblaidd yrru newid, gan gynnwys yr egwyddor ddylunio 'wedi ei phersonoli', sy'n golygu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi eu haddasu i gwrdd ag anghenion a blaenoriaethau'r unigolyn, gan gynnwys yn eu dewis iaith'.⁵
- 1.19 Mae cynllunio iechyd yn digwydd ar wahanol lefelau a dros wahanol gyfnodau, ac y bydd rhaid i'r theori newid gydnabod hyn. Mae **Fframwaith Cynllunio GIG Cymru**⁶ yn darparu arweiniad er mwyn cryfhau a datblygu cynllunio tymor canolig ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau. Datblygwyd hyn gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru mewn ymateb i angen dynodedig am gynllunio mwy effeithiol. Mae'r fframwaith yn gosod y paramedrau y dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gynlluniau oddi mewn iddynt. Mae ynddo gyfeiriad penodol i'r

³ Llywodraeth Cymru (2017), Cymraeg2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, td. 54

⁴ Adolygiad Seneddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018)

⁵ Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: Ein Cynllun i Iechyd a gofal Cymdeithasol

⁶ Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Cynllunio GIG Cymru

gofyniad y dylid cynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn unol â fframwaith strategol yr iaith Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, *Mwy na geiriau*, ac ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Ymholiad i Ofal Sylfaenol Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.⁷ Mae'r fframwaith cynllunio hefyd yn dweud yn benodol y dylai gweithdrefnau'r GIG hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws y gwasanaethau ac y dylent fod â Strategaeth Medrau Dwyieithog yr Iaith Gymraeg yn ei le.

Hefyd fe adlewyrchir yr egwyddorion hyn yn y **Safonau Iechyd a Gofal** sydd yn gosod sylfaen ar gyfer gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd trwy ddarparu fframwaith a ellir ei ddefnyddio i adnabod cryfderau a chyraedd rhagoriaeth. Cyfeirir at *Mwy na geiriau*, ac mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rôl wrth gyflenwi sawl un o'r safonau, gan gynnwys y safon i gyfathrebu'n effeithiol; 'wrth gyfathrebu â phobl mae gwasanaethau iechyd yn cwrdd yn rhagweithiol ag anghenion ieithyddol a chyfathrebol yr unigolyn' (safon 3.2).⁸

Cyd-destun deddfwriaethol

- 1.20 Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ddarostyngedig i Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sydd yn gofyn i'r sector i beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.⁹ Hefyd creodd y Mesur weithdrefn i gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau'r iaith Gymraeg¹⁰ yn y meysydd canlynol; cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredol, hyrwyddo, a chadw cofnodion. Mae'r cyfeiriad strategol i annog defnydd mwy o'r iaith Gymraeg ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a osodwyd gan *Mwy na geiriau* yn ategu ac yn cyd-fynd â'r gofynion sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n gysylltiedig â Safonau'r Iaith Gymraeg.
- 1.21 Mae deddfwriaeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy drwy'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) hefyd yn chwarae rhan yng nghyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol a pholisi'r iaith Gymraeg.

⁷ Ibid td. 11

⁸ Llywodraeth Cymru (2015) *Safonau Iechyd a Gofal*

⁹ Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

¹⁰ Mae Safonau'r Iaith gymraeg (gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru) yn set o ofynion sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac sydd wedi eu gosod ar Lywodraeth Cymru ers 30 o Fawrth 2016

- 1.22 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mis Ebrill 2015 i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Ei nod yw gorfodi cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyrff cyhoeddus eraill, ac i atal problemau. Wrth wneud hyn, gesyd nodau llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru fywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.
- 1.23 Gesyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni ar y cyd asesiad o anghenion gofal a chymorth. Gesyd y Ddeddf nifer o ddyletswyddau trosfwaol perthnasol, gan gynnwys dyletswydd drosfwaol i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith). Mae'r canllaw hwn yn cydnabod fod 'i lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn rhan annatod o gyflawni eu gofal, ac y bydd sicrhau hawliau yn ymwneud â'r gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cydradd'.¹¹ Sefydlodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 system reoleiddio sy'n cyd-redeg â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar osod ansawdd y gwasanaeth a gwelliant wrth wraidd rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar effaith gwasanaethau ar y bobl sydd yn eu derbyn, yn ogystal â rhoi pŵer diwygiedig i Ofal Cymdeithasol Cymru, sydd newydd ei sefydlu.
- 1.24 Mae hawliau defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gyfathrebu mewn iaith arbennig wedi eu hymgorffori yn neddfwriaeth Ewropeaidd a Phrydeinig megis Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop, Datganiad Hawliau pobl Hyn yng Nghymru a'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sydd yn amddiffyn hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hun fel y gosodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Ymchwil Ehangach*
- 1.25 Er mwyn galluogi defnyddwyr i gyfathrebu'n glir ac yn hyderus, mae ymchwil yn dangos ei bod yn allweddol iddynt fedru defnyddio eu dewis iaith wrth gyrchu gwasanaethau gofal. Mae ymchwil a wnaed ar ran Cyngor Gofal Cymru, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil rhyngwladol, yn esbonio bod cryfhau

¹¹ Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol), td. 15

ymwybyddiaeth iaith oddi mewn gofal cymdeithasol yn cyfrannu at well foddhad y defnyddiwr, gan gynnwys rhoi i ddefnyddwyr ymdeimlad o gynefindra a pherthyn pan fyddant yn medru cyfathrebu yn eu dewis iaith.¹² Cefnogir y casgliadau hyn gan ragor o ymchwil rhyngwladol sydd yn dod i'r casgliad y gwellir canlyniadau clinigol a boddhad oddi mewn amgylchedd gofalu pan fo defnyddwyr a'u gofawyr yn siarad yr un iaith a bod y gofawyr yn ymwybodol a chymwys yn ddiwylliannol.¹³

- 1.26 Yn 2014, ymgwymerodd panel ymholi a oedd yn gweithredu ar ran y Comisiynydd Iaith ymholiad statudol i'r iaith Gymraeg yng ngofal sylfaenol. Galwai'r ymholiad hwn am dystiolaeth, gan gasglu barn trwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid, cyswllt gyda'r cyhoedd, ymatebion oddi wrth weithdrefnau rhanddeiliaid, ac arolwg o 1000 o siaradwyr Cymraeg rhugl. Pwysleisiodd canfyddiadau'r ymholiad pa mor bwysig ydyw i siaradwyr Cymraeg i fedru cyfathrebu yn y Gymraeg gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod i'r casgliad fod "gwasanaeth yn y Gymraeg yn fater o angen nid dewis i nifer o gleifion". Daeth yr ymholiad i ben drwy ddarparu 33 argymhelliad i wella gwasanaethau'r iaith Gymraeg o fewn gofal sylfaenol yng Nghymru; rhydd yr argymhellion hyn ysgogiad a chanllaw ar gyfer cyrff sydd yn ceisio cyd-fynd ag egwyddorion *Mwy na geiriau*.¹⁴
- 1.27 Nodwyd pedwar grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd angen cefnogaeth arbennig i gyrchu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Y defnyddwyr gwasanaeth yw:
- unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl;
 - unigolion gydag anableddau dysgu;
 - yr henoed;
 - pobl ifanc.
- 1.28 Mae'r grwpiau a restrir uchod yn cynnwys unigolion sydd yn aml y lleiaf galluog o ran mynnu eu hawl i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.¹⁵ Yn arbennig felly, gwnaed ymchwil gyda defnyddwyr gofal sydd â dementia sydd yn datgan fod diffyg dewis iaith briodol yn rhagfynegydd cryf ar gyfer dirywiad mewn llesiant oherwydd

¹² Davies, Elaine, Different Words: Different Worlds? – The concept of language choice in social work and social care, Cyngor Gofal Cymru, td. 20

¹³ T.D. Goode, M.C. Dunne, S.M. Bronheim (2006) The Evidence Base for Cultural and Linguistic Competency in Health Care

¹⁴ Comisiynydd yr Iaith Gymraeg (2014) Fy Iaith, Fy Iechyd td. 29

¹⁵ Misell, Andrew, Welsh in the Health Service: The Scope, Nature and Adequacy of Welsh Language Provision in the NHS in Wales (2000), td. 12

rhwystrau i gyfathrebu ieithyddol rhwng defnyddwyr a gofalwyr. Mae ymchwil wedi dangos y byddai nifer o unigolion gyda dementia sy'n siarad Cymraeg yn dychwelyd i'w hiaith gyntaf a all, yn ei dro, greu unigedd cymdeithasol ymhlith unigolion.¹⁶ Mae ymchwil i iaith a diwylliant o ran gofalu am bobl sydd â dementia mewn cartrefi gofal yn awgrymu fod yna angen i ddatblygu strategaethau i alluogi unigolion i gyrchu'r gwasanaethau dwyieithog sy'n angenrheidiol er mwyn cynyddu boddhad unigolion yn yr amgylchedd gofal.¹⁷

- 1.29 Fel y cyfryw, noda'r fframwaith strategol dilynol fod yr iaith Gymraeg yn cael ei ystyried yn gydran graidd o ran darparu a chyfathrebu gwasanaethau gofal effeithiol yng Nghymru. Nodai'r fframwaith gwreiddiol ei fod yn hanfodol i unigolion dderbyn gofal sy'n adlewyrchu eu hiaith a'u cefndir diwylliannol 'er mwyn parchu eu hunaniaeth a chynnal eu hurddas'.¹⁸

¹⁶ Ibid td.26

¹⁷ Martin, Conor et al, Language and Culture in the Caregiving of People with Dementia in Care Homes – What are the Implications for Well-Being?

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Iaith Gymraeg i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (2012) td. 16

2. Methodoleg

- 2.1 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi eu seilio'n bennaf ar adborth ansoddol a gasglwyd oddi wrth gyfres o gyfweiliadau unigol gyda 25 cynrychiolydd o'r sefydliadau canlynol:
- Pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru
 - Gofal Cymdeithasol Cymru
 - Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol
 - Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC)
 - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
 - Colegau Cymru
 - Llywodraeth Cymru
- 2.2 Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru ar restr o gyfweleion posib y gellir cysylltu â nhw i ofyn am gyfweiliad. Roedd y cyfweleion posib yn cynnwys staff strategol uwch o'r sefydliadau uchod (Prif Weithredwyr, aelodau'r GIG Grŵp Arweinwyr Gweithredol Iaith Gymraeg, aelodau'r grŵp a oedd wedi datblygu fframwaith *Mwy na geiriau*, aelodau Bwrdd Partneriaeth Llywodraeth Cymru) yn ogystal â Swyddogion yr Iaith Gymraeg.
- 2.3 Dewiswyd sampl y cyfweleion ar sail eu bod nhw'n unigolion a oedd naill ai wedi bod yn rhan o ddatblygiad *Mwy na geiriau* a/neu wedi bod yn allweddol o ran cyflenwi polisïau ac arferion a oedd yn cefnogi amcanion y fframwaith rhwng 2016 a 2019.
- 2.4 Roedd y sampl yn cynnwys cynrychiolwyr uwch yn bennaf yn y gosodiadau a restrwyd uchod a oedd yn medru darparu persbectif strategol, yn ogystal â swyddogion yr iaith Gymraeg o fewn byrddau iechyd a oedd yn medru darparu manylion ac enghreifftiau ynglŷn â gweithredu amcanion *Mwy na geiriau* mewn gosodiadau. Roedd y sampl hefyd yn sicrhau y ceid barn cynrychiolwyr o wahanol ardaloedd daearyddol ar draws Gymru yn ogystal â gwahanol ardaloedd neu osodiadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- 2.5 Defnyddwyr gwasanaeth sydd wrth wraidd *Mwy na geiriau*. Fodd bynnag, ni ymgynghorwyd â defnyddwyr yn ystod y cyfnod hwn o'r gwerthusiad, gan fod y cyfweiliadau TN yn canolbwyntio ar ffactorau allweddol a mecanweithiau a fyddai wedi galluogi cyflenwi amcanion y fframwaith yn hytrach na'r effaith y gallai'r

ffactorau wedi ei chael ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Bydd tystiolaeth sy'n ymwneud â'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn allweddol i ddau gyfnod nesaf y gwerthusiad. Fel y cyfryw bydd ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn rhan bwysig o'r broses o gasglu gwybodaeth a fydd yn ofynnol yn y ddau gyfnod hyn.

2.6 Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau gydag unigolion (yn hytrach na gosodiad grwp), a thros y ffôn yn y rhan fwyaf o achosion, gyda lleiafrif wedi eu cynnal wyneb i wyneb pan roedd hynny'n gyfleus i'r cyfwelai. Rhoddwyd dewis i'r cyfweleion i wneud y cyfweiliad yn Saesneg neu'r Gymraeg.

2.7 Fel y nodwyd eisoes, mae'r cyfnod hwn o'r broses werthuso wedi canolbwyntio ar ddatblygu TN. Felly, roedd cyfweiliadau rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar gael dealltwriaeth o'r llwybrau newid arfaethedig neu'r allbynnau cysylltiedig a ddylai fod wedi cymryd lle rhwng 2016 a 2019 er mwyn cyflawni'r nodau ac amcanion a luniwyd oddi mewn fframwaith *Mwy na geiriau*.

2.8 Gwelir canllaw cyfweiliad cyflawn a ddefnyddiwyd i gasglu adborth ansoddol o'r cynrychiolwyr hyn yn Atodiad A. I grynhoi, roedd y canllaw cyfweiliad wedi codi'r cwestiynau canlynol:

- Beth ddylai fod **ar gael/yn digwydd** oddi mewn gosodiadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a gofal cymdeithasol os byddai prif nodau ac amcanion *Mwy na geiriau* wedi eu gwireddu'n llawn? Sut **olwg** fyddai ar hyn **yn ymarferol**?
- Pa **ffactorau allweddol** a fyddai angen fod yn eu lle neu a fyddai angen eu newid yn y gwasanaethau hyn er mwyn cyflawni'r allbynnau?
- Pa **weithgareddau** a/neu adnoddau a fyddai eu hangen i **gefnogi** datblygiad y ffactorau allweddol neu i alluogi'r newidiadau?
- Ar beth fyddai gweithredu llwyddiannus y gweithgareddau hyn a/neu newidiadau a gynlluniwyd fod yn ddibynnol arno, h.y. pa ffactorau fyddai angen i ddigwydd, bod yn ei le, neu fod ar gael i **alluogi'r gweithredoedd a gweithgareddau sy'n ofynnol** i gyflawni nodau *Mwy na geiriau* i gymryd lle?
- Beth fyddai angen i fod yn ei le i **sicrhau** fod **ffactorau sy'n dibynnu ar lwyddiant** yn cael eu cefnogi ar draws ac oddi mewn meysydd gwasanaeth?
- Pa ffactorau/polisiâu **allanol anuniongyrchol** allai/wedi dylanwadu cyflawniad nodau ac amcanion fframwaith *Mwy na geiriau*?

- 2.9 Cyflwynir crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd yn y cyfweiliadau yn adran 3. Yna ystyrir y safbwyntiau hyn o fewn cyd-destun pob un o'r saith amcan *Mwy na geiriau* er mwyn mapio'r llwybrau a fwriadwyd sy'n gysylltiedig gyda phob amcan. Cyflwynir hyn yn adran 4, lle mae'r ffigurau diagramatig ar gyfer pob amcan yn ffurfio sylfaen ein TN. Mae pob diagram yn amlinellu sut y mae'r gweithgareddau arfaethedig, allbynnau a chanlyniadau a gysylltwyd gyda phob amcan yn ymuno â'i gilydd i ffurfio llwybr newid sy'n cefnogi a/neu arwain at gyflawni amcanion arfaethedig *Mwy na geiriau*.
- 2.10 Bydd y gweithgaredd, allbwn, a chamau canlyniad, oll yn gysylltiedig, a nodwyd o fewn y TN, yn hysbysu'r fframwaith gwerthuso a'r gwaith maes ymchwil gwerthuso a fydd yn eu dilyn. Bydd y fframwaith gwaith maes yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i dystiolaethu a yw'r camau arfaethedig a nodwyd yn y TN wedi eu cyflawni. Bydd hwn yn ei dro yn arwain y broses gasglu gwybodaeth sy'n ofynnol i gynhyrchu'r canfyddiadau gwerthuso terfynol, h.y. tri chyfnod y gwerthuso a amlinellwyd yn adran 1.2.
- 2.11 Yn fyr, mae'r TN yn nodi'r camau arfaethedig i gyflawni nodau *Mwy na geiriau*, a bydd y fframwaith gwerthuso a gwaith maes yn nodi os, ac os felly, i ba raddau, mae'r camau hyn wedi eu cyflawni, a'r gwahaniaeth, os oes un, a wnaed i gyflenwi gwasanaeth a phrofiad defnyddwyr y gwasanaeth.
- Cyfngiadau ein dull*
- 2.12 Mae'r dull yr ydym wedi ei ddefnyddio yng nghyfnod hwn y gwerthuso wedi sicrhau y seiliwyd y canfyddiadau ar farn a phrofiadau rhychwant o rhanddeiliaid, pob un ohonynt â dealltwriaeth fanwl a gwybodaeth o'r cyd-destun ac amgylchedd y gosodwyd *Mwy na geiriau* ynddo. Fodd bynnag, mae gan ein dull rhai cyfyngiadau.
- 2.13 I ddechrau, er bod y TN yn canolbwyntio ar weithgareddau a datblygiadau yn ystod cyfnod y fframwaith strategol (2016-2019), mynegai llawer o'r cyfweleion farnai sy'n adlewyrchu materion cyfredol nad oedd o angenrheidrwydd yn berthnasol yn yr amserlen uchod. Enghraifft o hyn yw cyflwyniad diweddar y mwyafrif o safonau'r Gymraeg i'r sector iechyd a ddaeth i rym o 30 o Fai 2019.
- 2.14 Dyluniwyd cyfweiliadau'r rhanddeiliaid i fod yn fyfyrion. Fodd bynnag, roedd y dull hwn yn aml yn dibynnu ar allu'r rhanddeiliaid i gofio sefyllfaoedd o beth amser yn ôl. Tynnwyd cyfeiriadau a wnaed gan rhanddeiliaid at ddatblygiadau polisi diweddar neu ymyraethau arfaethedig yn y dyfodol o'r data ansoddol a gyflwynwyd yn yr

adrannau sy'n dilyn. Cyn belled ag y bo modd, felly, mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gweithgareddau, polisiâu, cyfleoedd a heriau a oedd yn berthnasol i 2016-2019 yn unig. Fodd bynnag, hwyrach fod angen pwylllo rhywfaint wrth ddehongli rhai o farnau myfyriol a fynegwyd gan rhanddeiliaid, gan y gallai rhai bod wedi cael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mwy diweddar.

- 2.15 Cyfyngiad arall y dull yw'r ffaith nad oedd yr holl rhanddeiliaid yn meddu ar ddealltwriaeth eglur o bob agwedd o fframwaith *Mwy na geiriau*. Gallai rhai rhanddeiliaid fynegi barn ar eu maes penodol nhw o'r sector yn unig a/neu gyflenwi ychydig o amcanion *Mwy na geiriau* yn unig. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi cynnig barn o bersbectif cyflenwi amcanion *Mwy na geiriau* o fewn gosodiadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a gofal cymdeithasol, tra bod eraill wedi rhoi barn a oedd yn berthnasol i ddatblygiad y ddogfen fframwaith ei hun. Gwnaeth rhychwant y rhanddeiliaid a gymerodd rhan yn y broses ymgynghori sicrhau fod y cyfyngiad hwn wedi ei liniaru i raddau helaeth. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd yr holl rhanddeiliaid wedi cyfrannu barnau a safbwyntiau a oedd yn berthnasol i'r holl benawdau pynciol a geir yn adran 3 isod.

3. Canfyddiadau cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid

- 3.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r barnau ac ymatebion a roddwyd gan y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw mewn cyfweliadau a arweiniwyd gan yr amserlen drafod a welir yn Atodiad A. Cyflwynir y canfyddiadau o'r cyfweliadau hyn fel meysydd allweddol mae'r rhanddeiliaid yn ystyried y dylent fod mewn lle neu yn derbyn cefnogaeth er mwyn cyflawni amcanion *Mwy na geiriau*.

Sut olwg fyddai ar gyflawni nodau *Mwy na Geiriau*?

- 3.2 Cynigiodd yr unigolion yr ymgynghorwyd â nhw farnau cymharol gyson ynglŷn â'r hyn yr oedden nhw yn deall oedd nodau troswaol *Mwy na geiriau* a sut olwg fyddai ar y Cynnig Gweithredol yn ymarferol. Cytunai'r mwyafrif y byddai gweithredu'r Cynnig Gweithredol yn llwyddiannus (h.y. sicrhau y darperir gwasanaeth yn y Gymraeg heb fod rhaid i rywun ofyn amdano) yn sicrhau cyflenwi cyfochrog yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar draws holl osodiadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 3.3 Nodai'r cyfranwyr pe gyflawnid nodau ac amcanion *Mwy na geiriau* yn llawn, na fyddai defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n 'lletchwith' nac allan o'u lle wrth gyfathrebu gyda gwasanaethau yn y Gymraeg. Cyfeiriodd un rhanddeiliaid at senario lle y byddai defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu ag un o'r gwasanaethau am y tro cyntaf. Pe bai'r Cynnig Gweithredol ar gael i'r defnyddiwr gwasanaeth hwn, yna na fyddent yn teimlo'r angen i fynegi beth oedd eu dewis iaith na gofyn yn benodol i'r ymholiad gael ei drafod yn y Gymraeg. Yn lle hynny, gallent wneud eu hymholiad yn eu dewis iaith. Byddai'r rhai o fewn y gwasanaeth a fyddai'n delio gydag ef yn disgwyl i dderbyn ymholiadau yn y Gymraeg a Saesneg ac y byddent felly yn medru ymateb i anghenion defnyddiwr y gwasanaeth yr un mor dda, pa iaith bynnag a ddefnyddiwyd.
- 3.4 Cymharodd un rhanddeiliaid y Cynnig Gweithredol i argaeledd troliau mewn archfarchnad. Nid oes angen troli ar bawb sy'n mynd i'r archfarchnad, ond mae pawb yn disgwyl y bydd un ar gael os oes angen, ac nid ydynt yn disgwyl y bydd rhaid iddynt ofyn am un, neu gael eu trin yn wahanol oherwydd bod angen un arnynt.
- 3.5 Nodai'r mwyafrif y byddai cyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn sicrhau y byddai defnydd y Gymraeg yn cael ei 'normaleiddio' ac yn cael ei gynnwys yn rhan o'r holl wybodaeth, prosesau cyfathrebu, a deunyddiau sydd ar gael ar draws y sector.

Byddai'r ddwy iaith i'w gweld ar yr holl arwyddion, deunydd ysgrifenedig, a gwybodaeth electronig sydd ar gael mewn gosodiadau. Byddai'r rhai sy'n cyrchu a gweithio yn y gosodiadau hyn hefyd yn disgwyl clywed defnydd cyson y ddwy iaith gan staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Cydnabuwyd na fyddai pawb a gyflogir yn y gosodiadau yn medru siarad na deall Cymraeg yn rhugl, ond y byddai pawb yn cydnabod y byddai ymgysylltu rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff yn y Gymraeg yn ddigwyddiad arferol, o ddydd i ddydd. Byddai pawb a weithiai yn y gosodiadau hefyd yn deall fod darparu'r Cynnig Gweithredol nid yn unig yn cwrdd â dewisiadau iaith a chyd-fynd â gofynion statudol, ond mewn llawer o achosion hefyd yn rhan annatod o anghenion iechyd a gofal unigolion yn ogystal â sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin gyda pharch ac urddas.

- 3.6 Mae geiriau cyffredin a ddefnyddiwyd gan gyfweleion wrth iddynt gyfeirio at sut olwg, yn eu tyb nhw, fyddai ar gyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn ymarferol, yn cynnwys 'naturiol, pob dydd, dewis, gofal, cleifion'. Cyflwynir y rhain ar ffurf cwmwl geiriau Ffigur 1. Mae'r geiriau hyn a ddefnyddir yn gyffredin yn dangos eto farn y cyfweleion pe bai nodau'r fframwaith yn cael eu gwireddu, yna byddai defnydd y Gymraeg ar draws gosodiadau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddigwyddiad naturiol bob dydd wedi ei seilio ar ddewis defnyddwyr y gwasanaeth.
- 3.7 Fodd bynnag, noda rhanddeiliaid hefyd tra bo rhai gosodiadau iechyd a gofal cymdeithasol efallai wedi bod yn cynnig gwasanaethau a oedd yn agos i'r hyn a geir yn y Cynnig Gweithredol cyn cyflwyniad *Mwy na geiriau*, mae eraill, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol lle mae canran gymharol isel o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg, wedi bod yn o bell o gyflawni hyn.
- 3.8 Roedd rhai o'r farn os byddai nodau *mwy na geiriau* wedi eu gwireddu yna dylem ddisgwyl gweld y Cynnig Gweithredol wedi ei wreiddio ar draws yr holl lwybrau gofal i gleifion, boed hynny yn y cartref, gofal sylfaenol, neu unrhyw wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol: '*Dylai'r Cynnig Gweithredol weu trwy'r llwybrau gofal yn naturiol.*' (Cyfarwyddwr y Gweithlu GIG).
- 3.9 Er mwyn cyflawni hyn, byddai rhaid trosglwyddo gwybodaeth ynglŷn ag anghenion iaith o un gosodiad i osodiad arall o fewn meysydd penodol yn y sector (e.e. o ofal iechyd sylfaenol i ofal iechyd eilaidd) yn ogystal â thros feysydd gwasanaeth (e.e. o iechyd i wasanaethau gofal cymdeithasol). Roedd rhai yn ystyried hyn yn ofyniad penodol yng ngolau'r duedd ddiweddar tuag at weithio'n fwy mewn partneriaeth,

gan gynnwys ffurfio byrddau partneriaeth ac arferion gweithio integredig rhwng meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

- 3.10 Er y cydnabuwyd hefyd y byddai cyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn llawn wedi sicrhau fod y Cynnig Gweithredol ar gael i holl ddefnyddwyr gwasanaeth erbyn hyn, roedd yna gonsensws ymhlith y cyfweleion y dylid fod wedi rhoi blaenoriaeth i rai grwpiau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn, pobl sydd â dementia, plant bach sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf, a defnyddwyr gwasanaeth sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl.

Ffigur 1: Cwmwl geiriau – termau a ddefnyddiwyd yn amlaf i ddisgrifio cyflawni nodau *Mwy na geiriau*



Ffactorau allweddol y mae angen iddynt fod ar waith neu mae raid eu newid er mwyn galluogi gwireddu nodau *Mwy na Geiriau*

- 3.11 Nodai'r cyfweleion ffactorau allweddol y byddai angen, yn eu tyb nhw, eu rhoi ar waith, neu ffactorau sydd eisoes yn bod ond rhaid eu newid, cryfhau, neu wella er mwyn cwrdd â nodau *Mwy na geiriau* yn llawn. Roedd y barnau a fynegwyd yn lled eang, ond roedd y mwyafrif yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:

- Gweithlu presennol;
- Gweithlu'r dyfodol;
- Systemau a phrosesau;
- Deunyddiau cyfathrebu dwyieithog;

- **Calonnau a meddyliau.**

Gweithlu Presennol

- 3.12 Ystyrir sicrhau fod y gweithlu presennol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg digonol yn ofyniad amlwg os byddai'r Cynnig Gweithredol yn cael ei gyflenwi ar draws gosodiadau yng Nghymru. Hefyd nodai llawer o'r cyfweleion er yn ddelfrydol y byddai *Mwy na geiriau* wedi annog argaeledd sgiliau'r iaith Gymraeg dros yr holl feysydd gwasanaeth, roedd rhai meysydd y dylid fod wedi eu blaenoriaethu. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd yn adran 3.8, yn ogystal â staff rheng flaen o fewn gosodiadau y cysylltir â nhw gan ddefnyddwyr wrth iddynt gyrchu gwasanaethau.

Gweithlu'r dyfodol

- 3.13 Cydnabuwyd yn gyffredinol na fyddai mesurau tymor byr (pum mlynedd neu lai) i dyfu medrau'r iaith Gymraeg o fewn y gweithlu presennol yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ac a gefnogwyd gan *Mwy na geiriau*. Teimlai'r cyfweleion, felly, er mwyn cyrraedd y canlyniadau a ddymunir, byddai 'n ofynnol i gael cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y rhai nad ydynt eto'n rhan o'r gweithlu ond sy'n ystyried gyrfa yn y sector. Roedden nhw hefyd o'r farn y dylid fod wedi annog unigolion sydd eisoes â sgiliau'r iaith Gymraeg i ystyried gyrfa yn y sector.

Systemau a phrosesau

- 3.14 Nodai rhanddeiliaid ffyrdd y gallai'r datblygu a gweithredu amrywiol systemau a phrosesau fod wedi cefnogi cynnydd tuag at nodau *Mwy na geiriau*. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Systemau sy'n nodi a mapio lefel sgiliau'r iaith Gymraeg sydd ar gael yn y gweithlu;
- Systemau sy'n cofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau fod y wybodaeth ar gael i'r holl ymarferwyr;
- Systemau i alluogi rheolwyr i gynllunio rotâu staff mewn modd i sicrhau y gellid pennu ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i gyd-fynd â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.

- 3.15 Nodai rhai cyfranwyr gwaith maes nad oes modd pennu sgiliau'r iaith Gymraeg ymarferwyr i gyd-fynd ag anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth drwy systemau a phrosesau yn unig. Honnwyd bod rhai ymarferwyr yn amharod i

ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg gan ofni eu bod nhw wedi cael eu dyrannu lefel anghymesur o gyfrifoldeb i gyflenwi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn eu gosodiad. Oherwydd hyn, cydnabuwyd mai er mwyn annog defnydd mwy o'r sgiliau iaith Gymraeg sydd eisoes yn bodoli, y byddai rhaid gweithredu'r systemau a phrosesau gyda sicrwydd, wedi eu cyfeirio at ymarferwyr Cymraeg eu hiaith, na fyddai defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu gorlwytho gyda chyfrifoldebau ychwanegol.

Deunyddiau cyfathrebu dwyieithog

- 3.16 Y consensws ymhlith y cyfweleion ydoedd er mwyn cyflawni nodau *Mwy na geiriau*, y dylai holl arwyddion a gwybodaeth gyhoeddus sydd ar gael mewn gosodiadau fod yn y Gymraeg a Saesneg. Nid yn unig fyddai hyn yn sicrhau statws a mynediad cyfartal i'r ddwy iaith, ond, ym marn y cyfweleion, y byddai'n creu amgylchedd lle ystyrid y Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd. Teimlir hefyd y byddai defnydd laniardau a bathodynau a wisgir gan aelodau staff i hysbysu defnyddwyr gwasanaethau eu bod nhw'n siarad Cymraeg yn creu mwy o anogaeth i bobl i siarad Cymraeg o fewn sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Calonnau a meddyliau

- 3.17 Roedd cyfranwyr o'r farn mai'r ffactor allweddol ynglŷn â chyflawni nodau *Mwy na geiriau* yw bod unigolion allweddol o fewn gosodiadau, gan gynnwys aelodau byrddau iechyd, cynrychiolwyr etholedig (e.e cynghorwyr), gweithredwyr uwch, rheolwyr, ymarferwyr, a staff ategol eraill, yn llawn werthfawrogi'r gwerth a phwysigrwydd o ddarparu'r Cynnig Gweithredol.
- 3.18 Cytunai pawb a gyfwelwyd fod annog agwedd bositif tuag at yr iaith Gymraeg ar draws holl feysydd y sector yn angenrheidiol pe byddai cyflwyno unrhyw brosesau neu weithgareddau i gefnogi'r Cynnig Gweithredol yn cael eu croesawu a chofleidio. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y byddai cyflawni hyn mewn llawer o osodiadau ar draws y sector wedi gofyn am drawsnewidiad diwylliannol mawr. Roedd y mwyafrif o randdeiliaid o'r farn y gellid fod wedi cyflawni hyn drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith pawb oedd yn gysylltiedig â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol o'r rôl bwysig a chwaraeir gan iaith wrth fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol defnyddwyr gwasanaeth.
- 3.19 Cydnabuwyd gan randdeiliaid y byddai rhaid cael cefnogaeth i'r Cynnig Gweithredol oddi wrth holl lefelau staffio ar draws y sector er mwyn gweithredu a chynnal y

Cynnig. Hefyd cytunodd rhanddeiliaid y byddai rhaid wrth arweinyddiaeth ymroddedig ar bob lefel er mwyn sicrhau newid mewn diwylliant ac agwedd o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Enghraifft o hyn oedd pencampwyr iaith o fewn sefydliadau a allai fod wedi gwasanaethu fel gyrrwyr newid diwylliannol.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai'r cyfeiriad teithio i ennill calonnau a meddyliau'r holl bersonél fod wedi dod o'r gwaelod i fyny. Yn eu barn nhw byddai codi ymwybyddiaeth staff rheng flaen o bwysigrwydd dwyieithrwydd a'r Cynnig Gweithredol wedi annog defnydd yr iaith Gymraeg o ran darpariaeth gwasanaeth rheng flaen. Byddai hyn wedi darparu enghreifftiau o arfer da, a fyddai yn ei dro wedi codi ymwybyddiaeth ac ennill cefnogaeth am ragor o gyflenwi gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg ymhlith personél uwch a chydweithwyr ar draws gosodiadau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Roedd cyfranwyr eraill, fodd bynnag, o'r farn y dylid fod wedi canolbwyntio'n bennaf ar ennill calonnau a meddyliau gweithredwyr uwch ar draws y sector yng Nghymru yn ogystal â phersonél uwch o fewn Llywodraeth Cymru – gweision sifil a gwleidyddion. Yn eu tyb nhw byddai sicrhau cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ac amcanion *Mwy na geiriau* ar lefel gweithredydd uwch wedi annog cefnogaeth ar gyfer polisïau ac arferion a fyddai yn eu tro wedi hidlo i lawr i annog mwy o gefnogaeth i'r iaith Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol ymhlith staff sy'n cyflenwi gwasanaethau rheng flaen.

Ffactorau sy'n galluogi llwyddiant

Y gweithlu presennol

- 3.20 Hyfforddiant iaith Gymraeg oedd y ffactor llwyddiant a nodwyd amlaf gan rhanddeiliaid a fyddai wedi bod yn ofynnol i wella sgiliau iaith Gymraeg y rhai a oedd eisoes wedi eu cyflogi o fewn gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Nodwyd hefyd y dylai hyfforddiant wedi bod ar gael i staff o bob ystod o allu yn y Gymraeg, gan gynnwys y rhai a oedd eisoes yn medru siarad Cymraeg ond oedd heb yr hyder i'w defnyddio yn y gweithlu.
- 3.21 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn na fyddai llawer o unigolion a oedd wedi derbyn addysg Gymraeg a/neu yn siarad Cymraeg y tu allan i'r gweithle, ddim o reidrwydd yn meddu â'r hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd gwaith ffurfiol. Awgrymwyd y byddai gweithgareddau i gefnogi'r unigolion hyn i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg (efallai drwy eu hannog fod defnyddio rhywfaint o'r Gymraeg

yn well na defnyddio dim) wedi bod yn ffordd gymharol gyflym o dyfu defnydd y Gymraeg o fewn y sector.

- 3.22 Mynegai rhai rhanddeiliaid farn y dylai'r hyfforddiant iaith Gymraeg a gyflenwyd fod wedi cynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, dylai hyfforddiant ar gyfer magu hyder a sicrwydd fod wedi cael ei gyflenwi ar ddull anffurfiol, tra bo angen cyflenwi hyfforddiant ar gyfer cymhwyster iaith mewn gosodiad mwy ffurfiol, megis 'dosbarth'.
- 3.23 Nodai rhanddeiliaid mai yn ogystal â sicrhau darpariaeth hyfforddi ddigonol yn y Gymraeg, byddai rhaid bod unigolion yn medru cael mynediad i'r cyfleoedd hyfforddi pe baent i wella eu sgiliau. Nodai un cyfwelai y byddai sicrhau bod gosodiadau yn gweithredu at hyd neu bron at hyd eu gallu yn ofyniad allweddol er mwyn galluogi rheolwyr i ryddhau staff i gyrchu'r hyfforddiant a oedd ar gael. Nodwyd y byddai hyn wedi bod yn wir am bob gofyniad hyfforddi, nid hyfforddiant iaith Gymraeg yn unig.
- 3.24 Yn ogystal â chaniatáu amser i staff i gyrchu unrhyw gyfleoedd hyfforddi iaith Gymraeg, roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn, er mwyn annog staff i fanteisio ar y cyfleoedd, y byddai wedi bod yn bwysig i sicrhau fod yr hyfforddiant sydd ar gael yn cyd-fynd â'u hanghenion sgiliau. Fel y cyfryw, ystyriwyd na fyddai rhaglen hyfforddi 'un maint yn addas i bawb' wedi cwrdd ag anghenion sgiliau pob unigolyn. Yn hytrach na hyn, byddai wedi bod rhaid wrth raddfa o gyfleoedd hyfforddi; rhywfaint o hyfforddi ar gyfer y rhai oedd heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg, a hyfforddiant arall ar gyfer siaradwyr Cymraeg cymwys a oedd angen magu hyder i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.
- 3.25 Nodai cyfranwyr eraill mai hyd yn oed os byddai'r hyfforddiant gofynnol wedi bod ar gael, fyddai angen anogaeth bellach ar rhai unigolion i'w gyrchu. Nodwyd bod yna gyswllt rhwng annog cyfranogiad mewn hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg a'r graddau bod unigolion a gyflogwyd ar draws y sector yn ymwybodol o'r buddiannau pwysig y mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn cynnig i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi amlinellu y byddai rhai unigolion wedi cael eu hannog i dderbyn cyfleoedd hyfforddi iaith Gymraeg pe baent wedi gweld uwch rheolwyr o fewn eu gosodiadau hefyd wrthi'n cyfranogi yn yr hyfforddiant oedd ar gael – h.y. dilyn yr esiampl a osodwyd gan eraill.

- 3.26 Fodd bynnag, nodai rhanddeiliaid na ddylid cymryd yn ganiataol y byddai cyrsiau hyfforddi o angenrheidrwydd wedi arwain at dwf o ran defnydd y Gymraeg yn y gweithlu. Er mwyn cyflawni hyn, byddai rhaid bod y rhai oedd wedi ennill sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a chefnogaeth hefyd yn cael y cyfle ac anogaeth i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwaith bob dydd. Byddai hyn yn ei dro wedi adlewyrchu'r graddau y byddai arferion gweithio, polisïau a systemau o fewn gosodiadau, yn galluogi ac annog unigolion i roi'r un pwyslais ar y Gymraeg a Saesneg yn y gweithlu.
- 3.27 Roedd llawer o gyfranwyr hefyd wedi mynegi barn mai er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle, byddai rhaid bod y gosodiadau wedi darparu amgylchedd cefnogol lle y byddai rhaid annog unigol i 'rhoi cynnig arni' i siarad Cymraeg, hyd yn oed os na fyddai'n berffaith neu os gwnaed camgymeriadau. Nodwyd bod nifer o weithwyr o fewn y sector oedd ag o leiaf rhai sgiliau iaith Gymraeg, heb yr hyder i ddefnyddio'r iaith o flaen cyd-weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth, rhag ofn iddynt gael eu barnu neu feirniadu. Felly, byddai darparu amgylchedd a oedd yn gefnogol i'r iaith Gymraeg wedi lliniaru ar rhai o'r rhwystrau hyn i hyder.
- Gweithlu'r dyfodol*
- 3.28 Cydnabuwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, mai er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sydd wedi ymuno â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, dylai mwy o swyddi gwag o fewn gosodiadau fod wedi cynnwys y Gymraeg fel gofyniad hanfodol yn y disgrifiad swydd.
- 3.29 Nodai rhanddeiliaid, fodd bynnag, fod llawer o osodiadau wedi ei chael yn anodd llenwi rhai swyddi, yn enwedig swyddi arbenigol yn y sector iechyd. Byddai gosod gofyniad i siarad Cymraeg ar ymgeiswyr potensial ar gyfer y swyddi hyn wedi ychwanegu at yr heriau hyn. Roedd cyfranwyr eraill hefyd wedi cydnabod hyn, gan awgrymu y dylid y gallu i siarad Cymraeg fod yn ofyniad ar gyfer rhai swyddi rheng-flaen allweddol yn unig.
- 3.30 Nodwyd hefyd y gellid fod wedi rhoi gofyniad i siarad Cymraeg yn bennaf o fewn disgrifiadau swyddi derbynfa lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud y cysylltiad cyntaf gyda'r gwasanaethau. Byddai gosod gofyniad mwy o fewn disgrifiadau swyddi eraill megis swyddi arlwy, porthorion ayb, hefyd wedi hyrwyddo amgylchedd lle y gellid clywed mwy o Gymraeg o fewn gosodiadau ac felly 'normaleiddio'r iaith i radd fwy.

- 3.31 Adroddodd rhanddeiliaid fod y cyfnod sefydlu o fewn rôl newydd yn rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau staff newydd o amrywiol bolisiau a gweithdrefnau. Mae'r cyfnod hefyd yn darparu cyfle i gyflwyno staff newydd i'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt. Awgrymwyd felly y byddai'r graddau yr oedd gosodiadau wedi ffocysu ar fuddiannau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iaith Gymraeg fel rhan o'u broses sefydlu wedi cael cryn dipyn o ddylanwad ar y graddau byddai staff newydd wedi cofleidio'r iaith ac o bosib, dilyn cyfleoedd hyfforddi'r Gymraeg.
- 3.32 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylid fod yn ofynnol ar bob aelod newydd o'r gweithle, fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth - waeth beth yw natur y swydd neu faes cyfrifoldeb – i ddysgu lefel sylfaenol o'r Gymraeg. Byddai hyn wedi sicrhau fod gan yr holl staff y gallu i ddefnyddio a deall lefel hanfodol o'r Gymraeg.
- 3.33 Nodai rhai rhanddeiliaid y byddai hysbysu disgyblion ysgol o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg am y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg, wedi annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ystyried dilyn gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y rhanddeiliaid hyn hefyd wedi nodi y byddai'r graddau mae colegau AB ac AU yn cyflenwi cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg – neu'n ddwyieithog, wedi dylanwadu'r graddau y gallai'r myfyrwyr fod wedi cynnal neu wella ei sgiliau iaith Gymraeg cyn iddynt weithio yn y sector.

Systemau a phrosesau

- 3.34 Adroddodd rhanddeiliaid fod systemau TG megis GIG Cofnod Electronig Staff (CES/ESR) ar gael rhwng 2016 – 2019 i gofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector. Soniwyd hefyd mai er mwyn i reolwyr ddefnyddio'r data sydd ar gael i adnabod aelodau o fewn eu tîm sydd â sgiliau iaith Gymraeg – ac yna cynllunio rotâu staffio ar sail argaeledd yr unigolion hyn – yna mi fyddai rhaid cysylltu systemau sector-cyfan megis CES/ESR gyda systemau lleol o fewn gosodiadau.
- 3.35 Nododd cyfweleion mai yn ddelfrydol y dylai systemau TG fod wedi eu gosod i gofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth ar lefel gofal sylfaenol. Dylai'r wybodaeth hon fod wedi dilyn y defnyddwyr gwasanaeth drwy gydol eu taith iechyd a gofal cymdeithasol fel y bo modd i ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg iddynt yn ôl yr angen.

Deunyddiau cyfathrebu dwyieithog

- 3.36 Awgrymodd cyfranwyr a gynigodd barn ar ddeunyddiau cyfathrebu mai os cyflawnwyd amcanion *Mwy na Geiriau*, yna y byddai sefydliadau a gosodiadau yn darparu llythyron apwyntiad, llythyron atgoffa ac unrhyw ohebiaeth arall sy'n ofynnol gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddwyieithog fel mater o arfer erbyn hyn.
- 3.37 Cytunwyd randdeiliaid mai er mwyn gwneud hyn, byddai wedi bod angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn y Gymraeg. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfieithu mewnol fel bod modd cynhyrchu deunyddiau yn y ddwy iaith ar yr un pryd heb achosi'r oedi a gysylltir â chomisiynu gwasanaethau cyfieithu allanol.
- 3.38 Nodai ychydig o'r rhanddeiliaid y dylid, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth iaith Gymraeg yn glir ac yn hygyrch i gymaint o ddefnyddwyr gwasanaeth â phosib, fod yr un fath o ganllawiau wedi ei ysgrifennu mewn fformat llai ffurfiol (o bosib yn dilyn yr un fath o ganllawiau â menter 'plain English' a ddefnyddir i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig yn Saesneg).

Gofynion craidd

- 3.39 Nodai rhanddeiliaid arweinyddiaeth gref, polisi, cynllunio ac atebolrwydd fel y ffactorau craidd sy'n ofynnol i gefnogi ac annog y newidiadau positif o ran diwylliant, dealltwriaeth angen, ac ymrwymiad i gyflenwi gwasanaethau iaith Gymraeg sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r nod ac amcanion troswaol fframwaith *Mwy na geiriau*.
- 3.40 Roeddent hefyd o'r farn fod yna berthynas gefnogol i'w gilydd rhwng y gofynion craidd hyn, lle byddai diwylliant positif ac ymwybyddiaeth o'r angen am wasanaethau iaith Gymraeg yn cefnogi arweinyddiaeth, polisi a chynllunio cryfach, ac i'r gwrthwyneb.
- 3.41 Dylai'r gofynion craidd hyn a ffactorau galluogi fod wedi gwasanaethu fel y gonglfaen y byddai'r gyrwyr newid allweddol, a fyddai wedi arwain tuag at gyflenwi'r Cynnig Gweithredol, yn ddibynnol arni. Mae'r gyrwyr yn cynnwys systemau a phrosesau, a lefel sgiliau iaith Gymraeg gweithlu'r presennol a'r dyfodol, yn ogystal ag amgylchedd ac arferion iaith Gymraeg ar draws osodiadau.

4. Mapio barn rhanddeiliaid i amcanion *Mwy na Geiriau*

- 4.1 Mae'r adran hon yn cysylltu'r canfyddiadau gwaith maes a amlinellwyd yn adran 3 i'r saith amcan a geir yn fframwaith *Mwy na geiriau*. Mae hi'n amlinellu'r ffactorau sy'n gysylltiedig â phob amcan a sut y maen nhw'n cysylltu ag allbynnau a chanlyniadau a nodwyd yn ystod y gwaith maes sy'n cefnogi cyflenwi'r Cynnig Gweithredol – h.y. y theori y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig sy'n ofynnol i gyflawni amcanion fframwaith strategol dilynol *Mwy na geiriau*.

Amcan 1: Arweinyddiaeth Genedlaethol a Lleol, a Pholisi Cenedlaethol

- 4.2 Mae'r ddogfen *Mwy na geiriau* yn esbonio mai er mwyn cyrchu ei nodau, rhaid wrth arweinyddiaeth gref ar draws bob lefel unrhyw sefydliad sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Cytunodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw gan nodi arweinyddiaeth gref fel gofyniad allweddol o ran cefnogi a chyflawni'r Cynnig Gweithredol. Cydnabuwyd bod arweinyddiaeth gref yn rhan annatod o ofyniadau allweddol eraill sydd â chysylltiad â chyflenwi amcanion y fframwaith, sef polisi a chynllunio, adnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion, ymrwymiad i newid, ac atebolrwydd. Nodwyd hefyd fod yna ofyniad am arweinyddiaeth gref oddi wrth Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, lefelau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn ogystal â'r rhai sy'n rheoli a chyflenwi gwasanaethau.

Arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol

- 4.3 Byddai arweinyddiaeth ar lefel Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffocws ar ymrwymiad i'r iaith Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol o fewn polisiâu a strategaethau cenedlaethol megis (ond nid yn gyfyngedig i) Fframwaith Cynllunio'r GIG, safonau iechyd a Gofal, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodai cyfranwyr i'r gwaith maes hefyd y byddai arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ar lefel genedlaethol yn cael ei amlygu wrth i unigolion amlwg o fewn Llywodraeth Cymru / Senedd Cymru ganmol a chefnogi'r fframwaith a phwysigrwydd cyflenwi'r Cynnig Gweithredol. Ystyrir y byddai arweinyddiaeth ar y lefel hon yn ei dro yn annog gwell ffocws ac arweinyddiaeth gref ar lefel gweithredydd uwch ar draws fyrddau iechyd ac o fewn awdurdodau lleol. Dylai hyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel ar yr iaith Gymraeg ac ar ddarparu'r Cynnig Gweithredol ar lefel leol ar draws fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau GIG a gwasanaethau a ariennir gan awdurdodau lleol.

Arweinyddiaeth ar lefel uwch/gweithredol

- 4.4 Nodir cyfranwyr y byddai arweinyddiaeth gref ar lefel gweithredydd uwch yn cael ei amlygu gan ffocws ar yr iaith Gymraeg o fewn dogfennau polisi a chynllunio byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Nodwyd hefyd y byddai arweinyddiaeth gref ar y lefel hon yn cymryd ffurf personél uwch/gweithredol ar draws gosodiadau yn annog defnydd yr iaith Gymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol.


Arweinyddiaeth ar lefel reoli a gweithredol

- 4.5 Dylai arweinyddiaeth ar lefel reoli gweithredol (e.e. ar lefel rheolydd datblygu'r gweithlu) ar draws y sector, sicrhau y byddai'r cynlluniau a'r polisiâu a geid o fewn dogfennau'r byrddau iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi a'u gweithredu ar lefel weithredol o fewn gosodiadau. Fel canlyniad, nodai rhanddeiliaid y bydden nhw'n disgwyl gweld cyflenwi parhaus neu gynyddol gwasanaethau dwyieithog o fewn gosodiadau, cefnogaeth i weithwyr i gyrchu hyfforddiant iaith Gymraeg, a phrosesau recriwtio sy'n denu mwy o sgiliau iaith i mewn i'r gweithlu.
- 4.6 I grynhoi, byddai arweinyddiaeth gref ar lefel genedlaethol yn cael ei amlygu gan y graddau y cynhwysid yr angen i ffocysu ar yr iaith Gymraeg o fewn iechyd a gofal cymdeithasol mewn dogfennau a pholisiâu strategol. Dylai hyn ddylanwadu a chreu arweinyddiaeth gryfach ar lefel uwch/gweithredol ar draws byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cael ei amlygu gan y graddau y cynhwysid ffocws ar gyflenwi gwasanaethau iaith Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol mewn cynlluniau cyflenwi gwasanaeth a datblygu'r gweithle. Dylai hyn yn ei dro arwain at well arweinyddiaeth ar lefel gyflenwi lleol a amlygid gan weithredu'r ffocws ar yr iaith Gymraeg yn y cynlluniau cyflenwi lleol.
- 4.7 Mae amserlen sylfaenol digwyddiadau a amlinellwyd uchod yn crynhoi barn rhanddeiliaid ynglŷn â'r cyfeiriad teithio a ddisgwylid ganddynt o ddylanwad arweinyddiaeth o'r brig i lawr. Roedd rhai o'r farn y gallai'r cyfeiriad dylanwad hefyd fod o'r gwaelod i fyny, lle y byddai arfer da sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gweithredol a ddangoswyd ar lefel gyflenwi/ weithredol yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar lefel uwch, a allai yn ei dro annog arweinyddiaeth gryfach.

Calonnau a Meddyliau

- 4.8 Fel nodwyd yn adran 3, mae'r mwyafrif o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi nodi y byddai sicrhau diwylliant ac ethos sy'n gefnogol o'r iaith Gymraeg, ar draws bob maes yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, wedi bod yn agwedd hanfodol o wneud cynnydd tuag at gyflawni nodau fframwaith *Mwy na geiriau* yn ystod y cyfnod rhwng 2016 a 2019. Cyfeirid yn aml at hyn fel ennill 'calonnau a meddyliau'. Y byddai'n dilyn felly y byddai newid diwylliannol positif o'r natur hon wedi bod yn angenrheidiol er mwyn annog arweinyddiaeth gryfach dros bob lefel yn ystod yr un cyfnod o amser.
- 4.9 Fodd bynnag, roedd yna hefyd farn bod arweinyddiaeth gref a diwylliant cefnogol yn ffactorau sy'n cefnogi ei gilydd. Tra cydnabuwyd 'ennill calonnau a meddyliau' fel rhagofyniad i arweinyddiaeth gref, fe gydnabuwyd hefyd y gallai arweinyddiaeth gref annog shift ddiwylliannol a fyddai'n arwain at ennill mwy o 'galonnau a meddyliau'.
- 4.10 Mae Ffigur 1 isod yn darlunio llwybrau gweithgareddau rhyng-gysylltiedig, allbynnau arfaethedig a chanlyniadau a ddymunir sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth gref – y Theori Newid sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth mewn perthynas â chynnydd tuag at gyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn ystod cyfnod 2016 – 2019.


Ffigur 4.1: Theori Newid ar gyfer Amcan 1: Arweinyddiaeth genedlaethol a lleol, a pholisi cenedlaethol




Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac ymchwil

- 4.11 Mae'r Ddogfen *Mwy na geiriau* yn amlinellu fod casglu data ynglŷn ag anghenion iaith Gymraeg y gymuned a wasanaethir gan iechedd a gofal cymdeithasol, a data am lefel sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector, yn allweddol er mwyn cynllunio cyflenwi gwasanaethau a datblygu'r gweithlu'n effeithiol.
- 4.12 Atseiniwyd hyn gan y rhai a gyfrannai i'r canfyddiadau ymgynghoriad gwaith maes, a nodai hefyd fod angen systemau (TG yn bennaf) a phrosesau effeithiol er mwyn cydweddu'r sgiliau iaith Gymraeg sydd ar gael gydag anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.13 Nodwyd hefyd fod ymchwil i, a lledaenu tystiolaeth sy'n dangos yn bellach yr angen i gyfathrebu gyda phobl yn eu hiaith gyntaf er mwyn darparu iechedd a gofal cymdeithasol o safon uchel, yn ffactor allweddol o ran codi ymwybyddiaeth o angen. Ystyrid hyn yn ei dro i fod yn gwbl allweddol yn y broses o ennill calonnau a meddyliau – sydd, fel y nodwyd mewn mannau eraill yn y ddogfen hon yn un o'r gofynion craidd y deillia'r holl gynnydd arall tuag at gyflawni nodau *Mwy na geiriau* ohono.

Ffigur 4.2: Theori Newid ar gyfer Amcan 2: Mapio, archwilio, casglu data




Ffigur 4.3: Theori Newid ar gyfer Amcan 2: Ymchwil



Amcan 3: Cynllunio Gwasanaeth, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu

- 4.14 Mae'r ddogfen *Mwy na geiriau* yn amlinellu fod gan gynllunio'r gweithlu a datblygiadau sefydliadol rhan ganolog i chwarae mewn perthynas â hyfforddi staff i gynyddu sgiliau iaith Gymraeg yn ogystal â mapio a chydlynu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu er mwyn symud ymlaen tuag at gyrraedd y gallu i ddarparu'r Cynnig Gweithredol ar draws gwasanaethau.
- 4.15 Pwysleisiai'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw'r pwysigrwydd o ddatblygu cynlluniau a gefnogwyd gan dystiolaeth o angen. Mae hyn yn cysylltu â'r allbynnau a gefnogwyd o dan amcan 2 uchod, sef y data a gasglwyd o systemau a phrosesau sy'n monitro a chofnodi'r galw am a'r gallu i ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg ar draws y sector.
- 4.16 Yna dylai'r dystiolaeth a gynhyrchwyd ffurfio'r sylfaen datblygu gweithlu gwybodus (gan gynnwys hyfforddi a recriwtio) a chynlluniau cyflenwi gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ar gael.
- 4.17 Yn unol â llawer o feysydd eraill o gynllunio a gweithredu sy'n ymwneud â chyflawni nodau'r fframwaith, pwysleisiai'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw'r rôl bwysig y mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn chwarae i ddatblygu agwedd bositif a diwylliant (calonnau a meddyliau) sy'n annog datblygu a gweithredu'r cynlluniau hyn.


Ffigur 4.4: Theori Newid ar gyfer Amcan 3: Cynllunio gwasanaethau, comisiynu, contractio a chynllunio'r gweithlu



Amcan 4: Hyrwyddo ac ymgysylltu

- 4.18 Mae'r ddogfen *Mwy na geiriau* yn amlinellu y dylid defnyddio arwyddion gweledol megis logo iaith Gwaith i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r fframwaith hefyd yn annog partneriaid allweddol i ddatblygu adnoddau gwybodaeth i gefnogi'r Cynnig Gweithredol.
- 4.19 Hefyd nodai'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw bwysigrwydd arwyddion gweledol nid yn unig i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg, ond hefyd i gyfleu neges fod y Gymraeg yn rhan "pob dydd" o ddarparu gwasanaeth.
- 4.20 Hefyd pwysleisiai llawer o randdeiliaid yr angen i hyrwyddo sut y defnyddir yr iaith Gymraeg mewn amrywiol swyddi o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau er mwyn annog mwy o sgiliau'r iaith Gymraeg ymhlith recriwtiaid y dyfodol i'r gweithlu.


Ffigur 4.5: Theori Newid ar gyfer Amcan 4: Hyrwyddo ac ymgysylltu



Amcan 5: Addysg Broffesiynol

- 4.21 Mae'r ddogfen *Mwy na geiriau* yn amlinellu fod buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol er mwyn sicrhau fod ganddo lefelau digonol o sgiliau iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o broses cefnogi cyflenwi'r Cynnig Gweithredol. Nodwyd hefyd y dylid seilio a hysbysu'r broses comisiynu addysg i Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) ar gynllunio'r gweithlu.
- 4.22 Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi lleisio barn a oedd yn cefnogi hyn. Hefyd nodai rhai mai yn gyfochrog â chynyddu cyflenwad sgiliau iaith Gymraeg drwy wreiddio sgiliau iaith Gymraeg o fewn cynllunio addysg a chyflenwi ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, dylai'r sector hefyd ddangos bod yna alw am sgiliau iaith Gymraeg o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai swyddi gweigion a llwybrau gyrfa yn annog mwy o unigolion sy'n ystyried gyrfa yn y sector i ddilyn cyrsiau AB ac AU sydd â ffocws ar sgiliau iaith Gymraeg.


Ffigur 4.6: Theori Newid ar gyfer Amcan 5: Addysg Broffesiynol



Amcan 6: Cymraeg yn y Gweithle

- 4.23 Mae'r ddogfen *Mwy na geiriau* yn amlinellu mai 'er mwyn cyflawni nodau'r fframwaith, dylai GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ddatblygu strategaeth recriwtio a chadw effeithiol i sicrhau fod gan dîmau staff y gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg'.
- 4.24 Hefyd cydnabuwyd recriwtio a chadw staff fel blaenoriaeth ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Nodai nifer o gyfranwyr yr heriau sy'n bodoli ar draws y sector o ran recriwtio'r sgiliau proffesiynol gofynnol i rai swyddi, gan fynegi pryderon y gallai ychwanegu sgiliau iaith Gymraeg fel gofyniad hanfodol neu ddymunol wnei rhai swyddi'n anodd iawn i'w llenwi.
- 4.25 Fel y nodwyd uchod yn adran 3, roedd yna hefyd gydnabyddiaeth y tan-ddefnyddiwyd rhai sgiliau iaith Gymraeg oherwydd naill ai diffyg hyder ymhlith rhai gweithwyr i siarad Cymraeg yn y gweithlu neu/ac amharodrwydd ymhlith rhai staff sy'n siarad Cymraeg i ddatgelu eu sgiliau siarad Cymraeg rhag ofn iddyn nhw gael eu siarsio i gyflenwi'r mwyafrif os nad y cyfan o wasanaethau Cymraeg o fewn eu tîm cyflenwi gwasanaeth.


Ffigur 4.7: Theori newid ar gyfer Amcan 6: Cymraeg yn y Gweithle



Amcan 7: Rheoleiddio ac arolygu

- 4.26 Mae fframwaith *Mwy na geiriau* yn nodi ‘ mae rôl yr arolygiaethau yn hanfodol os gwneir angen iaith a shifft ddiwylliannol i'r Cynnig Gweithredol yn wirionedd. Bydd eu gwaith nhw yn asesu profiadau pobl a nodi a ydynt wedi derbyn gofal ieithyddol priodol’.
- 4.27 Nodai cyfranwyr gwaith maes mai yn eu tyb nhw roedd atebolrwydd yn ofyniad craidd er mwyn sicrhau y gweithredid y cynlluniau a gweithredoedd sy'n ofynnol i gyflenwi'r Cynnig Gweithredol. Nodwyd hefyd fod yna berygl mai heb atebolrwydd dim ond gweithredoedd symbolaidd a fyddai'n cael eu gwneud i gefnogi'r fframwaith. Nodwyd bod hyn yn risg penodol gan ystyried y galw cystadleuol am adnoddau cyfyngedig sydd eisoes yn bodoli o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Figure 4.8: Theori Newid ar gyfer Amcan 7: Rheoleiddio ac arolygu



5. Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'r Theori Newid a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio fel sylfaen y fframwaith gwerthuso a fydd yn arwain cyfnod nesaf y broses werthuso. Mae ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r cyd-ddibyniaethau rhwng nodau'r fframwaith a gofyniadau craidd a gyrywyr allweddol yn ein galluogi ni i benderfynu pa feysydd i'w hadolygu, pa gwestiynau i'w gofyn, a'r ffynonellau posib a fydd yn darparu'r atebion i'r cwestiynau hyn. Bydd hyn yn ei dro yn ein hysbysu ni o'r graddau y mae fframwaith Mwy na geiriau wedi annog a galluogi cynnydd tuag at gyflenwi'r cynnig Gweithredol ar draws sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae meysydd allweddol sydd angen eu hadolygu a chwestiynau y bydd rhaid eu hateb gan gynnwys (ond nid o angenrheidrwydd yn gyfyngedig i'r) canlynol:

Cwestiynau cenedlaethol / holl sectorau

- Oes yna enghreifftiau o Aelodau Cynulliad blaenllaw / Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl arweiniol i gefnogi amcanion fframwaith Mwy na geiriau (MNG)?
- Oes yna enghreifftiau o Uwch gynrychiolwyr ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cymryd agwedd a diwylliant positif a chefnogol tuag at yr iaith Gymraeg a chymryd rôl arweiniol i gefnogi amcanion MNG yn eu gosodiadau?
- Ydy polisiâu a strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol yn pwysleisio'r angen i gyflenwi gwasanaethau iaith Gymraeg o ran iechyd a gofal cymdeithasol a / neu'r angen i gefnogi sgiliau iaith Gymraeg neu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol?
- A oes blaenoriaeth uchel ar amcanion MNG wedi ei gosod o fewn datblygu'r gweithlu, strategaeth cyflenwi gwasanaeth a phrosesau cynllunio?
- Ydy rhaglenni gwaith cenedlaethol yn cynnwys datblygiadau iaith Gymraeg fel allbynnau / canlyniadau mesuradwy?
- Ydy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) c Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn dwyn gosodiadau iechyd a gofal

cymdeithasol i gyfrif ynglŷn â'r graddau y mae prosesau cynllunio cyflenwi gwasanaeth lleol yn cwrdd â'r allbynnau a chanlyniadau mesuradwy a nodwyd?

- Ydy prosesau / systemau yn eu lle wedi cofnodi'r proffil / cynhyrchu data mapio sy'n ymwneud â lefel sgiliau'r iaith Gymraeg ar draws gweithlu ieuchyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
- I ba raddau wnaeth y systemau hyn gipio data'n llawn ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector?
- Beth a amlinellir gan y data am dueddiadau lefelau sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector rhwng 2016 a 2019? I ba raddau mae cynhwysiant sgiliau iaith Gymraeg yn cynyddu ymhlith gweithlu ieuchyd a gofal cymdeithasol y dyfodol yng Nghymru?
- Oes yna fwy o fyfyrwyr sydd yn / wedi dechrau cyrsiau addysg uwch neu gyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg?
- Ydy lefel a chymwysterau sgiliau iaith Gymraeg recriwtiaid y dyfodol i'r gweithlu ieuchyd wedi cynyddu fel canlyniad i hyn?
- Sut ac i ba raddau mae anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth wedi eu diwallu yn y sector ieuchyd a gofal cymdeithasol?
- Ydy defnyddwyr gwasanaethau ar draws Cymru wedi cymryd rhan / wedi eu holi am eu barn ar wella gwasanaethau iaith Gymraeg?

Cwestiynau lleol / astudiaeth achos

- Ydy gweithgareddau arfaethedig yn y cynlluniau cyflenwi gwasanaeth sy'n ffocysu ar yr iaith Gymraeg wedi cael eu gweithredu ar draws gosodiadau?
- A all / ydy defnyddwyr gwasanaeth wedi gallu cyrchu gwasanaethau yn y Gymraeg?
- Ydy sgiliau iaith Gymraeg wedi eu cynnwys yn hyfforddiant staff / datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a phrosesau recriwtio staff ar draws gosodiadau ieuchyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
- Ydy cymhwyster sgiliau'r iaith Gymraeg o fewn gweithluoedd ieuchyd a gofal cymdeithasol lleol wedi cynyddu?

- Ydy systemau sydd yn eu lle wedi cofnodi'r proffil /cynhyrchu data mapio ynglŷn â lefelau sgiliau'r iaith Gymraeg ar draws y gweithlu o fewn gosodiadau iechyd a gofal cymdeithasol?
- I ba raddau wnaeth y systemau hyn gipio data sy'n ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg yn llawn ar draws y sector? Sut mae'r data hyn wedi cael ei ddefnyddio?
- A oes modd i ddefnyddwyr gwasanaeth adnabod ag ymgysylltu â staff sy'n siarad Cymraeg pan fyddant yn cyrchu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol? A all defnyddwyr gwasanaeth gyrchu gwybodaeth a darpariaeth gwasanaeth yn eu dewis iaith heb fod rhaid iddynt ofyn yn benodol am hyn?
- Ydy defnyddwyr gwasanaeth wedi gweld gwelliannau / gwell ymwybyddiaeth a chynnig o ran gwasanaethau iaith Gymraeg?
- Ydy defnyddwyr gwasanaeth wedi cymryd rhan / wedi cael eu holi am eu barn ar wella gwasanaethau iaith Gymraeg?

Atodiad A

Testun agored:

Pwrpas y drafodaeth hon yw deall yr hyn yr ydych yn ei ystyried oedd y camau a'r camau gweithredu i gyflawni gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y fframwaith strategol dilynol Mwy na Geiriau. Bydd eich barn chi a barn pobl eraill yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu defnyddio i gynhyrchu model theori newid. Mae model theori newid yn nodi ac yn mapio cyfres o ganlyniadau cysylltiedig neu lwybr newid, a ddylai arwain o gefnogi cyflwyno gweithgareddau cychwynnol i gyflawni canlyniadau dymunol. Yna bydd y model theori newid a gynhyrchir yn llywio datblygiad fframwaith gwerthuso a fydd yn arwain cam nesaf yr astudiaeth.

Lansiwyd fframwaith strategol Mwy na Geiriau gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn 2012. Lansiwyd y fframwaith strategol dilynol yn 2016 i gynnal momentwm ond hefyd i gefnogi lefel uwch o gydnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r iaith Gymraeg ond mater o angen hefyd. Mae'r fframwaith yn nodi camau gweithredu o dan saith amcan: arweinyddiaeth genedlaethol a lleol; mapio, archwilio, casglu data ac ymchwil; cynllunio gwasanaeth; hyrwyddo ac ymgysylltu; addysg broffesiynol, Cymraeg yn y gweithle a rheoleiddio ac arolygu.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu barn ar yr hyn a ddylai **ddigwydd yn ddelfrydol** hyd yn hyn er mwyn cyflawni'r nodau cyffredinol a luniwyd yn wreiddiol o fewn y fframwaith, yn hytrach na'r hyn sydd **wedi** digwydd yn ymarferol. Bydd casglu tystiolaeth ynghylch yr hyn sydd **wedi** digwydd yn ganolbwynt i'r cyfnod gwerthuso a fydd yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bydd y safbwyntiau a fynegwch yn ddiennw. Ni fydd nodiadau a / neu recordiadau a gasglwyd yn ystod y cyfweiliad yn cael eu rhannu ag unrhyw un y tu allan i dîm yr astudiaeth werthuso a byddant yn cael eu dileu tri mis ar ôl i'r contract ddod i ben.

Cwestiynau cyfweiliad

Cyfweilydd i ofyn: *A gawsoch yr hysbysiad preifatrwydd a oedd yn cyd-fynd â'r e-bost gwahoddiad? A oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â hynny? A ydych chi'n fodlon bwrw ymlaen â'r cyfweiliad ar sail y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad?*

Os nad yw'r cyfweleion wedi derbyn copi o hysbysiad preifatrwydd - bydd y cyfweilydd yn cynhyrchu copi y gall y cyfweilai ei adolygu cyn i'r cyfweiliad ddechrau.

Cwestiynau:

- Beth yn eich barn chi y dylem yn ddelfrydol ei weld ar gael / yn digwydd ar hyn o bryd, ar draws Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yng Nghymru pe bai prif nodau ac amcanion y fframwaith Mwy na Geiriau wedi'u cyflawni'n llawn?
 - Beth fyddai cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn yn edrych fel yn ymarferol - beth fyddem ni'n disgwyl ei weld yn cael ei gyflwyno / ar gael i

ddefnyddwyr gwasanaeth a) ar draws pob maes gwasanaeth b) o fewn y maes gwasanaeth rydych chi'n gweithio / yn ei gynrychioli?

e.e. Gallai pob defnyddiwr gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gael mynediad i'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- Pa newidiadau ar draws yr holl feysydd gwasanaeth / o fewn eich maes gwasanaeth, ydych chi'n meddwl fe wnaeth Mwy na Geiriau fwriadu eu cefnogi er mwyn cyflawni ei nodau? - sut olwg fyddai ar y newidiadau hyn yn ymarferol?

e.e. Mwy o staff rheng flaen / sy'n wynebu cwsmeriaid yn cael eu cyflogi ar draws y sector sy'n gallu darparu gwasanaethau yn ddwyieithog.

- Ym mha ffordd / sut y byddai gwneud / gweithredu'r newidiadau hyn wedi arwain at gyflawni amcanion Mwy na Geiriau?
- Sut y gallai / fyddai'r newidiadau hyn yn cael eu cefnogi / annog gan Fwy na geiriau yn cael eu gweithredu / cefnogi yn ymarferol ar draws meysydd gwasanaeth?

e.e. Hybu sgiliau Cymraeg / dwyieithog staff presennol ar draws y sector. Recriwtio mwy o staff gyda sgiliau Cymraeg / dwyieithog.

- Pa weithgareddau / adnoddau y byddai eu hangen i gefnogi cyflwyno / datblygu'r newidiadau a fwriadwyd gan Mwy na Geiriau?

e.e. Hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer aelodau staff presennol. Cynyddu'r flaenoriaeth a roddir ar sgiliau Cymraeg o fewn disgrifiadau swydd a phrosesau recriwtio.

- Beth fyddai gweithrediad llwyddiannus y gweithgareddau a'r newidiadau a gynlluniwyd gennych yn gynharach yn dibynnu arno h.y. pa ffactorau y byddai angen i ni gymryd yn ganiataol y byddent yn eu lle / ar waith / ar gael i alluogi'r gweithredoedd a'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion Mwy na geiriau?

e.e. staff ar draws y sector yn gallu / cael yr hyder / cyfle i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn ymarferol.

- Beth oedd angen ei wneud i sicrhau bod y ffactorau dibynnol ar lwyddiant Mwy na geiriau yn cael eu cefnogi ar draws ac o fewn meysydd gwasanaeth?

e.e. cefnogaeth a chefnogaeth gan uwch reolwyr a chyfarwyddwyr.

- Pa ffactorau / polisïau allanol anuniongyrchol y gallai / y gallent fod wedi dylanwadu ar gyflawni nodau ac amcanion y fframwaith Mwy na Geiriau?

e.e. cyflwyno'r safonau iaith Gymraeg ar gyfer iechyd o fewn amserlen y fframwaith Mwy na Geiriau

Mae'r cwestiynau canlynol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau yn y dyfodol yn hytrach na ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar newid hyd yma.

- Beth sydd angen i ddigwydd / cael ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod y ffactorau a'r rhagdybiaethau allweddol y mae llwyddiant y fframwaith yn seiliedig arnynt (fel y nodwyd mewn ymateb blaenorol) yn cael eu cyflawni?

- Yn y tymor byr (hyd at 2020)
- Tymor hir (y tu hwnt i 2020)
- Beth sydd angen ei sefydlu (ee adnoddau, polisïau, strategaethau) er mwyn sicrhau cynnydd yn y dyfodol
 - Yn y tymor byr (hyd at 2020)
 - Tymor hir (y tu hwnt i 2020)